**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 12-01(cofn. ddraft)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **17 Hydref 01** |
| **Amser** | **2.30-5.30pm** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.** |

**Presenoldeb**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Glyn Davies | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Sir Gaerfyrddin a De Sir Benfro |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Alison Halford | Delyn |
| Rhodri Morgan (fel y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Gorllewin Caerdydd |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Derek Jones | Cyfarwyddwr, Materion Economaidd, Trafnidiaeth, Cynllunio a’r Amgylchedd. |
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, yr Adran Ddatblygu Economaidd |
| Emyr Roberts | Yr Is-adran Cynllunio Economaidd |
| John Clarke | Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Phil Gray | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Caroline Turner | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Gareth Edwards | Yr Is-adran Cynllunio Economaidd 5 |
| Ron Loveland | ISG |
| Simon Moss | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |

**Yn Bresennol**

John Griffiths AC — Cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 2

**Ysgrifenyddiaeth**

John Grimes — Clerc
Sian Wilkins — Dirprwy Glerc

**Ymddiheuriadau:** Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau.

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd.**

1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod cyntaf y tymor newydd a chadarnhaodd fod cynnig wedi ei gyflwyno ar gyfer y Cyfarfod Llawn yr wythnos nesaf i ethol Aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol i'r pwyllgor. Pryderai rhai Aelodau fod absenoldeb Aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol yn peri bod y cyfarfod heb gydbwysedd rhwng y pleidiau a holasant a oedd y cyfarfod yn ddilys. Cadarnhaodd y Cadeirydd a'r Clerc eu bod wedi archwilio'r sefyllfa a bod y cyfarfod wedi ei gyfansoddi'n briodol.
2. Gwnaethpwyd datganiadau o fuddiant gan Christine Gwyther, y mae ei chymar yn rhedeg busnes ymgynghoriaeth; gan Brian Hancock, sydd yn gyfarwyddwr ar fusnes bach sydd yn arbenigo mewn Iechyd a Diogelwch a chan Dafydd Wigley sydd yn gyfarwyddwr anweithredol ar gwmni bach yng Ngwynedd, sydd yn gysylltiedig â'r sector diagnostig meddygol.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog**

1. Mynegwyd pryder ynghylch hwyrni adroddiad y Gweinidog a honnwyd bod hynny'n dangos bod cyflawni rôl Prif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn profi'n ormod o faich iddo. Cynigiodd y Gweinidog ei ymddiheuriadau am hwyrni'r adroddiad a dywedodd nad y ffaith ei fod yn cyflawni'r ddwy rôl oedd y rheswm dros yr oedi.
2. Cyflwynodd y Gweinidog ei adroddiad gyda diweddariad byr ar lafar yr atodwyd copi ohono i'w adroddiad ysgrifenedig.
3. Ailgododd rhai o'r Aelodau fater dal portffolio Datblygu Economaidd gan Brif Weinidog Cymru a dygasant i gof ei fod wedi nodi yng Ngorffennaf y byddai'r sefyllfa yn newid ar ryw adeg. Cyfeiriwyd at ei absenoldeb o ymweliad diweddar y Pwyllgor â gogledd Cymru fel rhan o'r adolygiad o bolisi ynni. Awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor ddymuno rhoi ei farn ar y mater hwn a gofynnwyd i'r Cadeirydd gymryd pleidlais. Gwrthododd y Cadeirydd roi'r mater i bleidlais a dyfynnodd Reol Sefydlog 8.17 ac Arweiniad y Llywydd ar hynny.
4. Cadarnhaodd y Gweinidog, er bod y diwydiant gweithgynhyrchu yn dirywio, fod y twf presennol yn y diwydiannau gwasanaeth yn gwneud iawn am y swyddi a gollir yn y maes hwn. Mynegodd ofid ynghylch cau Corning Optical Fibre yng Nglannau Dyfrdwy

ond dywedodd mai’r prif reswm dros y cau, fel yr oedd yn ei ddeall, oedd cwymp anferth yn y farchnad i ffibrau opteg.

5. Mewn ateb i gwestiwn gan Aelod cadarnhaodd y Gweinidog a’r swyddogion fod y contract ar gyfer Mapio Digidol y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol wedi mynd i’r India. Yr oedd hyn yn destun gofid ond yr oedd rheolau tendro’r UE wedi eu cymhwyso ac yr oedd yn rhaid rhoi’r contract i’r cynnig gorau.
6. Mynegwyd pryder ynghylch colli swyddi yn y diwydiant awyrofod. Tynnodd y Gweinidog sylw at rai o’r rhesymau am hynny a dywedodd ei fod yn credu bod Cymru mewn sefyllfa dda i adennill y swyddi tra medrus hyn ar ôl i’r diwydiant wella.
7. Mewn ymateb i gais am ragor o wybodaeth am y swyddi a grybwyllwyd gan y Gweinidog ar ei ddychweliad o Galiffornia dywedodd y byddai o leiaf chwe mis yn mynd heibio cyn gweld tystiolaeth o’r swyddi hynny.
8. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o fanylion am y ffynhonnell gyllid i gynllun Corus a’r cynllun Adfer Gwledig yn y cyfarfod nesaf. Gofynnodd Aelod yn benodol am adroddiad yn rhestru’n fanwl o ble y daeth y £66 miliwn a’r £65 miliwn, pa faint ohono a oedd yn arian y Cynulliad a pha faint a ddarparwyd yn allanol. Gofynnodd hefyd am ba sawl blwyddyn y byddai’r rhaglen ariannol yn parhau. Ychwanegodd y Gweinidog fod hyblygrwydd diwedd blwyddyn yn bwysig i ganiatáu i’r Cynulliad ymateb i argyfyngau. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
9. Ynghylch yr Awdurdod Porthladd, gofynnodd Aelod am wybodaeth fanylach. Mynegwyd pryder yn arbennig ynghylch y diffyg gwybodaeth mewn perthynas â’r amrywiadau yn y gost a’r costau cynnal ar gyfer ansawdd d^wr. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn i’r holl Aelodau. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch yr oedi parhaus wrth gynhyrchu Cynllun Busnes yr Awdurdod Porthladd. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
10. Mewn ymateb i bryder ynghylch cyllido i Fwrdd Croeso Cymru, atgoffaodd y Gweinidog yr Aelodau bod Bwrdd Croeso Cymru wedi derbyn codiadau mawr yn ei gyllid dros y ddwy flynedd diwethaf. Yng ngolwg y ffaith bod rhai rhannau o Gymru yn dal i fod ar gau oherwydd clwy’r traed a’r genau teimlwyd nad hon oedd yr adeg iawn i gychwyn ymgyrch farchnata fawr. Pan ddeuai’r adeg iawn byddai’r Cynulliad yn darparu cymorth i Fwrdd Croeso Cymru. Dywedodd ei bod yn rhy fuan i ddechrau marchnata Cymru fel cyrchfan golffio ac y byddai gwaith yn dechrau ar hynny y flwyddyn nesaf er mwyn manteisio ar y cais llwyddiannus am gystadleuaeth Cwpan Ryder.

**Eitem 3:Cronfeydd Strwythurol**

1. Rhoddodd Chris Chapman adroddiad llafar ar gyfarfod Pwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 1 ar 17 Medi gan ddisgrifio’r cynnydd a wnaethpwyd ar amryw o faterion a’r cynnydd da o ran ymrwymiadau. Dywedodd fod y Pwyllgor Monitro Rhaglen wedi ystyried eto gais y Pwyllgor Datblygu Economaidd i gael papurau’r Pwyllgor Monitro Rhaglen ar yr un pryd ag aelodau’r Pwyllgor Monitro Rhaglen, ond yr oedd wedi cadarnhau ei farn wreiddiol nad oedd hyn yn briodol.
2. Rhoddodd John Griffiths adroddiad llafar ar gyfarfod y Pwyllgor Monitro Rhaglen Amcan

2 ar 24 Medi. Disgrifiodd y gwaith a wnaethpwyd er mwyn hyrwyddo'r rhaglen, a oedd yn cychwyn ychydig yn arafach na'r rhaglenni eraill. Soniodd yn benodol am yr estyn am arian a dywedodd ei fod yn credu eu bod ar y llwybr iawn i gyrraedd y targed. Er hynny, yr oedd yn bwysig peidio â bod yn hunanfodlon a byddent yn parhau i fonitro'n fanylach y cynnydd ar brosiectau a'r estyn am arian er mwyn sicrhau nad aent ar gyfeiliorn.

3. Atodir copi o'r ddau adroddiad hyn i Bapur EDC-12-01 (P2). Yn y drafodaeth cytunwyd bod y taliadau o dan Amcan 1 (Tabl 5 yn yr adroddiad) wedi cychwyn yn araf ond dywedodd y swyddogion fod yr holl arolygon yn dangos y byddid yn cyrraedd targed Rhagfyr 2002 am estyn arian. Pwysleisiodd yr Aelodau mor bwysig oedd penderfynu'n gyfym ar geisiadau prosiect – hyd yn oed pan oedd hynny'n golygu eu gwrthod.
4. Yr oedd pryder ynghylch oedi wrth sefydlu partneriaethau ar ynni, trafnidiaeth gyhoeddus integredig a seilwaith TG. Barnwyd nid yn unig fod yr oedi ei hun yn anffodus iawn, ond bod perygl y byddai'r CE yn dod i'r casgliad nad oedd Cymru'n ystyried y rhain yn flaenoriaeth. Cadarnhaodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru fod y Bartneriaeth Ranbarthol Seilwaith bellach wedi ei sefydlu. Dywedodd y swyddogion fod £1.8 miliwn wedi ei ychwanegu at gyllideb y WDA er mwyn ei gynorthwyo i reoli'r partneriaethau.
5. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch cost gweinyddu rhaglenni'r cronfeydd strwythurol. Dywedodd y swyddogion nad oedd yn hawdd darparu ffigur am fod y rhaglen yn cynnwys gwariant nid yn unig gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ond hefyd gan 10 partneriaeth ranbarthol a 15 partneriaeth leol a'r gefnogaeth iddynt. Fodd bynnag, yr oedd yr Aelodau'n bryderus bod natur eang y prosesau'n cynyddu'r perygl i'r costau godi'n anghymesur. Dywedodd y swyddogion eu bod yn pryderu y byddai ymgymryd ag ymarfer prisio llawn yn gallu troi staff Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru oddi wrth y dasg o weithredu'r cynlluniau a chytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i ddarparu i'r Pwyllgor wybodaeth ar gostau rhedeg a oedd ar gael yn rhwydd. Wedyn gallai'r Pwyllgor ystyried a oedd hyn yn ddigonol i ateb eu pryderon ynteu a oedd angen dadansoddiad pellach. [Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]
6. Bu trafodaeth fyr ar y cynnydd ar Gymhorthion Gweithredu. Gofynnodd y Gweinidog i'r Aelodau gadw mewn cof y gwahaniaeth rhwng cymhorthion gweithredu ac amrywiad cyllidol a chytunodd i ddarparu nodyn ar eu trafodion hyd hynny â'r CE a'r Trysorlys . [Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]operating
7. Rhoddodd yr Aelodau gymeradwyaeth gyffredinol i fformat yr adroddiad 'chwarterol' a baratowyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Gofynasant a ellid darparu gwybodaeth hefyd ar y symiau sydd ar gael ar gyfer cyllid cyfatebol, yn ôl penawdau unigol cyllideb y Cynulliad, a maint y cyllid a estynnwyd o'i gymharu â'r targedau, unwaith eto yn ôl penawdau'r gyllideb. Nodwyd nad oedd hyn yn wybodaeth a ddylai ddod oddi wrth Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a chytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i ddarparu'r ffigurau. [Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]
8. Cyfeiriwyd at drafodaethau yn gynharach yn y flwyddyn a phryderon a fynegwyd bryd hynny y byddai'r ddarpariaeth gyllidebol yn profi'n annigonol i gwrdd â'r holl ymrwymiadau yn y flwyddyn. Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd fod

hyn yn bryder dilys ond dywedodd ei bod yn anodd ar yr adeg hon mewn blwyddyn ragweld yr alldro ar gyfer y flwyddyn gyfan. Byddai rhagolwg mwy dibynadwy ar gael ym mis Rhagfyr.

**Eitem 4: Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol – Ymatebion i'r ymgynghoriad**

1. Cyn i'r Gweinidog gyflwyno'r papur dywedodd y Cadeirydd, er bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar y wefan, y byddai wedi hoffi gweld matrics a oedd yn crynhoi'r ymatebion. Yr oedd wedi canfod hefyd y byddai rhai ymatebwyr wedi hoffi cael copïau o'r cyflwyniadau a roddwyd yn y sioeau teithiol i fynd â hwy at eu haelodau.
2. Dywedodd y Gweinidog fod y broses ymgynghori wedi tynnu allan amrywiaeth eang o farnau yn enwedig oddi wrth grwpiau buddiant arbennig. Yr oedd wedi rhoi prawf ar y strategaeth ddrafft mewn gweithgor a oedd yn cynnwys y WDA, Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain, Cyngres yr Undebau Llafur a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Dywedodd mai un o'r materion a gynigiai'r her fwyaf oedd y ffaith bod angen iddi ymdrin â Datblygu Economaidd fel y'i disgrifir yn y cylch gwaith a roddwyd gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn ogystal â rhoi sylw ehangach i faterion fel Addysg, Trafnidiaeth, a.y.b.
3. Cadarnhaodd y Gweinidog fod yr adroddiad drafft, ar ôl ymgynghori, yn wahanol iawn yn awr i'r adroddiad a welodd y pwyllgor i ddechrau a bod y pryderon a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd wedi eu cymryd i ystyriaeth.
4. Mynegwyd pryder nad oedd yr adroddiad cyn hynny wedi cynnig cynlluniau manwl ar gyfer gweithredu. Yr oedd rhai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi dweud bod y papur ymgynghorol yn uchelgeisiol a'i bod yn bwysig bod yr adnoddau ar gael i'w ategu. Gwnaethpwyd y pwynt nad ymddangosai fod cynnydd gwirioneddol wedi bod yn y cyllid i Addysg, yn enwedig ym maes Addysg Uwch, er bod y Pwyllgor Datblygu Economaidd wedi gofyn am gyllid ychwanegol i Addysg yn eu hymateb ar y gyllideb.
5. Dywedodd y Gweinidog nad pwrpas y strategaeth oedd manylu ar y cyllid, er y byddai lle amlwg i fater adnoddau yn y strategaeth ddiwygiedig. Nid oedd modd i strategaeth 10 mlynedd neilltuo adnoddau manwl dros y cyfnod llawn gan nad oedd gan y Cynulliad gyllideb 10 mlynedd.
6. Ar bwnc targedau rhanbarthol, dywedodd y Gweinidog nad oedd yn sicr ei bod yn synhwyrol rhannu'r targedau i lawr i'r lefel hon. Yr oedd angen cael targedau pendant a chydnabod ffiniau a symudiad poblogaeth.

**Eitem 5: Adolygiad Ynni**

1. Cyflwynwyd y papur gan Ron Loveland a ddechreuodd drwy gyfeirio at y gweithdy diweddar ar ffynonellau adnewyddadwy a'r consensws cyffredinol bod targed o 1000mw o ynni o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2010 yn realistig. Cyfeiriodd at ymweliad diweddar y Pwyllgor â gorsafoedd trydan a'r sylwadau cyffredinol a wnaethpwyd ynghylch y broses cynllunio bresennol. Ychwanegodd y byddai'r arwyddion a ddeuai o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn bwysig i ddarparwyr cyllid, yn enwedig yn achos

prosiectau ynni adnewyddadwy newydd. Pwysleisiodd yr angen yn hyn o beth i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd gysylltu â Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar faterion cynllunio.

2. Ychwanegodd ei bod yn dod yn fwyfwy anodd cael cymeradwyaeth i unrhyw brosiect newydd a dyfynnodd fel enghraifft y gwrthodiad diweddar i'r cynllun i godi gorsaf drydan nwy yng Nglyn Ebwy. Yr oedd angen cydsyniad cyhoeddus cyffredinol a lleol i unrhyw brosiect newydd ac mae'n anorfod y bydd yr anghydweld yn cael ei ffocysu drwy'r Cynulliad. Felly, pa un a oedd yn cefnogi'r anghydweld neu'n ei liniaru, yr oedd angen i'r Cynulliad arfer arweinyddiaeth. Terfynodd Ron Loveland drwy awgrymu y gallai'r weledigaeth a gynhyrchid drwy'r ymarfer hwn, gan gymryd y câi ei mabwysiadu gan y Cynulliad fel cyfangorff, ddylanwadu'n fawr iawn ar gyflawni targedau'r Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol.
3. Mewn trafodaeth gyffredinol, mynegwyd pryder na ddylai awdurdodau ymatal rhag rhoi caniatâd i brosiectau newydd wrth ddisgwyl canlyniad yr adolygiad. Awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor gyhoeddi adroddiadau interim. Gan gytuno â'r awgrym hwn, dywedodd Aelod arall fod yr Alban yn rhoi arwyddion cliriach i'r diwydiant yn hyn o beth ac y byddai'n denu buddsoddiad newydd o'r herwydd.
4. Mynegwyd pryder nad y dadleuon amgylcheddol oedd y broblem o reidrwydd ond oedi wrth benderfynu. Yr oedd yn bwysig cymryd yr holl wrthwynebiadau o ddifrif ond nid eu hanwybyddu gan obeithio y byddai'r prosiect yn mynd i ffwrdd oherwydd diffyg ymateb. Dyfynnwyd enghraifft o brosiect fferm wynt a chytunodd y Gweinidog y byddai'n ymchwilio ymhellach i'r mater os rhoddai'r Aelod y manylion iddo.
5. Cyfeiriwyd at y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ymweliadau'r Pwyllgor â gorsafoedd trydan ynghylch yr ansicrwydd y mae cwmnïau yn ei wynebu wrth ddewis cyflenwad tanwydd. Cytunodd y Gweinidog fod y cynnydd ym mhrisiau nwy ynghyd â'r gostyngiad mewn prisiau trydan, yn arbennig, yn golygu ei bod yn amhroffidiol cynhyrchu trydan o nwy ar hyn o bryd oni bai fod gan gwmnïau gontractau hirsefydlog am gyflenwad nwy. Yr oedd hyn yn ganlyniad yn bennaf i agor y rhyng-gysylltydd rhwng y DU ac Ewrop a oedd wedi arwain at gynnydd o 30% i 40% mewn prisiau nwy.
6. Wrth derfynu dywedodd y Cadeirydd y byddid yn cyfleu barn bresennol y Pwyllgor i'r Gr^wp Cyfeirio a'i bod yn teimlo y byddai'n bwysig cynhyrchu adroddiadau interim. Cytunodd y Pwyllgor hefyd nad oedd yr amserlen hyd 2010 y cyfeirir ati yn y cylch gorchwyl yn ddigon hir a chytunodd fod amserlen hyd 2020 neu efallai hyd yn oed 2030 yn fwy realistig.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

1. Cytunodd yr Aelodau fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**